## Gweithgaredd Dysgu

Mae'r adnodd hwn yn cynnig gweithgareddau dysgu i'ch disgyblion gan ddefnyddio Casgliad y Werin Cymru. Mae'n rhan o gyfres o dri adnodd dysgu sy'n ymwneud ag Abertawe yn y 1850au.

**Abertawe Oes Fictoria - Cyfrif Pennau**
Abertawe Oes Fictoria - Pobl a'u Pethau
Abertawe Oes Fictoria - Storïau Pobl

**Cam Cynnydd** 3

**Teitl** Abertawe Oes Fictoria - Cyfrif Pennau

**Awdur** Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru ac Amgueddfa Cymru

## Cyflwyniad

**Pa fath o bobl oedd yn byw ac yn gweithio yn Abertawe yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg?**

Ai tref lan môr Fictoraidd fodern, grand â'r rhwydwaith drafnidiaeth ddiweddaraf ynteu dref ddiwydiannol fyglyd, orlawn, gyda slymiau, colera a draeniau gwael oedd Abertawe? Neu rywbeth rhwng y ddau?

Mae'r ymchwiliad hwn yn defnyddio Cyfrifiad 1851 ynghyd â mapiau, ffotograffau, paentiadau, papurau newydd, hysbysebion a chyfeirlyfrau masnach. Mae'r Gweithgaredd Dysgu hwn yn un o gyfres sy'n gysylltiedig â gweithdai i ysgolion yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau ac Amgueddfa Abertawe ac mae'n defnyddio archifau a ffynonellau gan Wasanaeth Archifau Gorllewin Morgannwg a Llyfrgell Abertawe.

## Tasgau ac Amcanion Dysgu

1. Cyfrif Pennau: cyflwyno Cyfrifiad 1851
2. Cyfrif Pennau: pwy oedd yn byw yn Abertawe ym 1851?
3. Pobl Leol a Mewnfudwyr: o ble roedd pobl yn dod?
4. Pobl wrth eu Gwaith: beth roedd pobl yn ei wneud yn Abertawe?

**Bydd y disgyblion yn gallu:**
Defnyddio TGCh a data i ddewis, cofnodi a threfnu gwybodaeth hanesyddol
Gofyn ac ateb cwestiynau perthnasol am y gorffennol
Gweld sut mae'r gorffennol yn cael ei gyfleu a'i ddehongli
Cyfleu syniadau, safbwyntiau a chasgliadau yn fwyfwy annibynnol gan ddefnyddio TGCh

## Nodiadau'r Athrawon - Mae hwn ar ddiwedd yr adnodd dysgu hwn

**Canllaw i Ddefnyddio Excel i Archwilio'r Cyfrifiad**
Dyma ganllaw sylfaenol, cam wrth gam, i ddangos i athrawon sut i archwilio'r trawsgrifiadau o Gyfrifiad 1851 yn Excel – gan ddefnyddio hidlyddion, hidlyddion personol, trefnu, cyfrif ac ati.

# Abertawe Oes Fictoria - Cyfrif Pennau

## Tasg 1. Cyfrif Pennau: Cyflwyniad i Gyfrifiad 1851

**Beth ddigwyddodd yn Abertawe ar noson 30 Mawrth 1851?**

Trafodaeth gychwynnol: Beth yw cyfrifiad? Pam rydym yn cael cyfrifiad bob deng mlynedd? Pryd mae'r un nesaf?


Edrychwch ar yr erthyglau o *The Cambrian* 21 a 28 Mawrth 1851. Beth maen nhw'n ei ddweud wrthym am y ffordd roedd gwybodaeth yn cael ei chasglu yn 1851? Beth oedd yn digwydd os nad oeddech yn llenwi'r ffurflen yn iawn? Pa gwestiynau hoffech chi eu gofyn i'r cyfrifwyr yn Abertawe?



THE CENSUS.—The enumerators will leave the [illegible]

*The Cambrian* 21 Mawrth 1851

https://www.casgliadywerin.cymru/items/19372



sharper look out for the future.

THE CENSUS.—We are requested to remind the public, that the Census papers left at their several houses, in the course of the present week, will be collected simultaneously throughout the entire Kingdom, on Monday. The papers will contain full directions, to enable parties to fill them up properly, and it is necessary that great care and accuracy should be observed in giving the required information, because, independently of the legal penalties for making an erroneous return, every person should feel interested in having the statistical details, which this Census will produce, as perfect as possible.

GLAMORGANSHIRE EASTER SESSIONS.—Minutes of Business for Tuesday, the 8th day of April, 1851:—


ORDERS OF THE DAY.—1. To consider any communication from

*The Cambrian* 28 Mawrth 1851

https://www.casgliadywerin.cymru/items/19378

Rydym wedi paratoi cyflwyniad pdf, o'r enw '**Cyfrif_pennau**' i ddangos i chi sut i ateb y cwestiynau hyn. Mae i'w weld ar wefan yr adnodd hwn. Yma, cewch gwrdd â rhai o drigolion Abertawe ym 1851, gweld y cofnod amdanynt yn y cyfrifiad a chael gwybod sut i ddarllen y cyfrifiad.

Yn olaf, edrychwch ar erthygl yn *The Cambrian*, 8 Awst 1851.
http://www.casgliadywerin.cymru/items/19377




THE CENSUS.—The official returns just issued shew that the increase of population in the Swansea district has been very considerable since 1841. In that year the number was 38,649; in 1851, 46,951.

SWANSEA THEATRE.—We beg to remind the patrons of the drama, that Mr. E. W. Gomersal's Benefit is fixed for this evening, under the patronage of the Freemasons of Swan-

Faint o gynnydd a fu ym mhoblogaeth Abertawe rhwng 1841 a 1851? Faint o amser a gymerodd hi i gyfrif yr holl bennau? Cofiwch nad oedd cyfrifiaduron na chyfrifianellau i'w cael bryd hynny – roedd yn rhaid i'r holl gyfrif, cyfansymio a gwirio gael ei wneud gan ddynion a oedd yn gweithio fel clercod gan ddefnyddio dim ond pensil a phapur!

Erthyglau papur newydd a chofnodion cyfrifiad gwreiddiol

## Tasg 2. Cyfrif Pennau: pwy oedd yn byw yn Abertawe ym 1851?


THE CENSUS.—The official returns just issued shew that the increase of population in the Swansea district has been very considerable since 1841. In that year the number was 38,649; in 1851, 46,951.

SWANSEA THEATRE.—We beg to remind the patrons of the drama, that Mr. E. W. Gomersal's Benefit is fixed for this evening, under the patronage of the Freemasons of Swan-

*The Cambrian* 8 Awst 1851

http://www.casgliadywerin.cymru/items/19377

Mae'r dasg hon yn defnyddio trawsgrifiadu yn Excel o Gyfrifiad 1851 ar gyfer strydoedd yng nghanol Abertawe ac, yn ddelfrydol, dylid gwneud y gwaith yn yr ystafell gyfrifiaduron (os oes un) gyda phob pâr neu grŵp o ddisgyblion yn canolbwyntio ar un stryd neu ardal.

Gallwch ddefnyddio **Taflen Weithgareddau 1** neu ei haddasu at anghenion eich disgyblion. Ar gyfer y rhan fwyaf o'r cwestiynau, mae'n ofynnol i'r disgyblion ddefnyddio offer syml yn Excel fel trefnu, hidlo, canfod ac ychwanegu data. Mae'r cwestiynau mewn print italig yn cyfeirio at y cwestiynau am y data!

Ar ôl cwblhau'r Daflen Weithgareddau, cymharwch eich canfyddiadau â rhai'r grwpiau eraill. Os oes gwahaniaethau, trafodwch y rhesymau posibl. Yn olaf, rhowch grynodeb mewn grwpiau:

Beth yw'r FFEITHIAU a wyddom am y bobl yn ein stryd neu ein hardal?

Beth yw ein BARN am y bobl yn ein stryd neu ein hardal?

Beth arall hoffen ni wybod am y bobl hyn? Sut allen ni gael gwybod?


**Taflen Weithgareddau 1. Mae hwn ar ddiwedd yr adnodd dysgu hwn**

Trawsgrifiad Excel

## Tasg 3. Pobl Leol a Mewnfudwyr: o ble roedd pobl yn dod?

Cwestiynau cychwynnol: O ble mae'r disgyblion yn y dosbarth a'u teuluoedd yn dod? Pwy sydd wedi symud bellaf i ddod yma? Os oes lle, gofynnwch i'r disgyblion osod eu hunain gyda'r rhai lleol yn y canol, gan symud tuag allan i weddill Cymru, Lloegr a'r Alban, gweddill Ewrop a gweddill y byd. Trafodwch a ydi'r disgyblion yn meddwl mai peth diweddar yw ymfudo, gyda phobl yn symud i fyw i Gymru.

Edrychwch ar gofnod cyfrifiad Bernard Henessey ym 1851. O ble ddaeth e? A'i wraig? Edrychwch ar gofnodion y bobl eraill o Abertawe rydych wedi cwrdd â nhw i weld o ble y daethant.



Cofnod cyfrifiad 1851 ar gyfer Bernard Henessey, 7 Wind Street

http://www.casgliadywerin.cymru/items/19518

Mae Taflen Weithgareddau 2 yn canolbwyntio ar wreiddiau trigolion Abertawe ym 1851. Mae'n edrych ar ymfudo o weddill Cymru, y Deyrnas Unedig a'r tu hwnt. Gallwch ddefnyddio'r mapiau a'r tablau i gofnodi'r data. Mae'r dasg hon hefyd yn defnyddio trawsgrifiadau Excel o Gyfrifiad 1851 ar gyfer strydoedd yng nghanol Abertawe ac, os oes modd, dylid gwneud y gwaith yn yr ystafell gyfrifiaduron gyda phob pâr neu grŵp o ddisgyblion yn canolbwyntio ar un stryd neu ardal.


Gallwch ddefnyddio **Taflen Weithgareddau 2** neu ei haddasu at anghenion eich disgyblion. Ar gyfer y rhan fwyaf o'r cwestiynau, mae'n ofynnol i'r disgyblion ddefnyddio offer syml yn Excel fel trefnu, hidlo, canfod ac ychwanegu data. Mae'r cwestiynau mewn print italig yn cyfeirio at y cwestiynau am y data!

**Taflen Weithgareddau 2. Mae hwn ar ddiwedd yr adnodd dysgu hwn**

Trawsgrifiad Excel


## Tasg 4. Pobl wrth eu Gwaith: beth roedd pobl yn ei wneud yn Abertawe?

Cwestiynau cychwynnol: Pa fath o waith sydd gan y bobl rydym wedi cwrdd â nhw hyd yma yn 1851? Ydi Jane Jones a Samuel Hughes yn nodweddiadol o weithwyr Abertawe ym 1851? Beth am Hugh Mahoney a George Grant Francis? Ydyn nhw'n nodweddiadol? Rydyn ni'n mynd i gael gwybod!



Cofnod Cyfrifiad 1851 ar gyfer Jane Jones a Samuel Hughes

http://www.casgliadywerin.cymru/items/19523



Cofnod Cyfrifiad 1851 ar gyfer Royal Institution, Burrows Lodge

https://www.casgliadywerin.cymru/items/19504

Mae'r dasg hon hefyd yn defnyddio trawsgrifiadau Excel o Gyfrifiad 1851 ar gyfer strydoedd yng nghanol Abertawe ac, os oes modd, dylid gwneud y gwaith yn yr ystafell gyfrifiaduron gyda phob pâr neu grŵp o ddisgyblion yn canolbwyntio ar un stryd neu ardal.

Gallwch ddefnyddio **Taflen Weithgareddau 3** neu ei haddasu at anghenion eich disgyblion. Ar gyfer y rhan fwyaf o'r cwestiynau, mae'n ofynnol i'r disgyblion ddefnyddio offer syml yn Excel fel trefnu, hidlo, canfod ac ychwanegu data. Mae'r cwestiynau mewn print italig yn cyfeirio at y cwestiynau am y data!

**Taflen Weithgareddau 3. Mae hwn ar ddiwedd yr adnodd dysgu hwn**

Trawsgrifiad Excel

# Abertawe Oes Fictoria - Cyfrif Pennau

**Taflan weithgareddau 1. Cyfrif Pennau – Beth all y cyfrifiad ei ddweud wrthym am y bobl oedd yn byw yng nghanol Abertawe ym 1851?**

Rydym yn ymchwilio i stryd neu ardal: ______________________________

Mae pob grŵp yn edrych ar stryd neu ardal o gyfrifiad 1851. Mae Awgrymiadau ar gyfer Chwilio’r Data i’ch helpu. Ar y diwedd, gallwch gymharu’ch canfyddiadau.

| | DATA | AWGRYMIADAU AR GYFER CHWILIO’R DATA |
|---|---|---|
| **CYFRIF PENNAU** | | |
| Faint o bobl oedd yn byw yn y stryd neu’r ardal hon ar noson y cyfrifiad ym 1851? | | Awgrym: edrychwch ar rifau’r rhesi ar ochr chwith y daenlen a thynnu rhesi’r penynnau (rhesi 1 a 2 fel rheol) NEU i weld y cyfanswm, cliciwch ar y gell ddata gyntaf <u>o dan</u> bennawd y golofn ‘Stryd/Road’ a, gan ddal botwm y llygoden i lawr, symudwch y cyrchwr i’r gell olaf yn y golofn honno. Bydd hynny’n amlygu’r golofn. Yna, fe welwch ‘Cyfrif/Count = a chyfanswm nifer y celloedd’ yng ngwaelod y ffenest. *Cofiwch dynnu unrhyw resi gwag* |
| Sawl gwryw? Canran? | | Hidlwch golofn G **Rhyw/Sex** – **M**, yna **Dangos y Cyfan/Show All**<br>Cyfrifwch ganran y gwrywod |
| Sawl benyw? Canran? | | Hidlwch golofn G **Rhyw/Sex – F,** yna **Dangos y Cyfan/Show All**<br>Cyfrifwch ganran y benywod |
| *Pa mor gyfartal yw nifer y gwrywod a’r benywod? Os ydynt yn anghyfartal iawn, allwch chi ddyfalu pam y gallai hyn fod?* | | |
| Sawl aelwyd sydd yn y stryd hon? | | Hidlwch golofn E – **HEADS**, mae nodiadau ar ddefnyddio hidlydd i’w gweld isod. I weld y cyfanswm, cliciwch ar y gell ddata gyntaf <u>o dan</u> bennawd y golofn ‘Perthynas/Relation To’ a, gan ddal botwm y llygoden i lawr, symudwch y cyrchwr i’r gell olaf yn y golofn honno. Bydd hynny’n amlygu’r golofn. Yna, fe welwch ‘Cyfrif/Count = a chyfanswm nifer y celloedd’ yng ngwaelod y ffenest. |
| Rhannwch gyfanswm nifer y bobl â nifer yr aelwydydd yn y stryd. Beth yw nifer gyfartalog y bobl ar bob aelwyd? | | |
| | | **DANGOS Y CYFAN** |

# Abertawe Oes Fictoria - Cyfrif Pennau

| | DATA | AWGRYMIADAU AR GYFER CHWILIO'R DATA |
|---|---|---|
| **PLANT** | | |
| Faint o blant 12 oed ac iau sy'n byw yn y stryd hon? | | Rhowch Hidlydd Personol/Custom Filter ar golofn H – **Oed/Age – Dangos rhesi lle mae'r oed yn llai na neu'n hafal i 12,** cyfrif y cyfanswm (gweler isod)<br>**Dangos y Cyfan** |
| Faint o blant rhwng 5 a 12 oed sydd mewn addysg? | | Rhowch Hidlydd Personol/Custom Filter ar golofn H – **Oed/Age – Dangos rhesi lle mae'r oed yn llai na neu'n hafal i 12 AC yn fwy na neu'n hafal i 5**, Hidlwch golofn I **Scholar** a **Scholar at home**<br>**Dangos y Cyfan** |
| Faint o bobl ifanc dros 12 oed sydd mewn addysg? | | Rhowch Hidlydd Personol ar golofn H – **Oed/Age – Dangos rhesi lle mae'r oed yn fwy na 12 AC yn llai na neu'n hafal i 20,**<br>Hidlwch golofn I **Scholar** a **Scholar at home** |
| *Ym 1851, nid oedd plant yn gorfod mynd i'r ysgol ac roedd y rhan fwyaf o ysgolion yn cael eu rhedeg gan Eglwys Loegr (Ysgolion Cenedlaethol) a'r capeli anghydffurfiol (Ysgolion Brutanaidd). Roedd llawer o blant yn dysgu darllen ac ysgrifennu yn yr Ysgolion Sul. Roedd teuluoedd cyfoethog yn anfon eu plant i ysgolion preifat lle'r oeddent yn talu am yr addysg neu yn eu haddysgu gartref. Doedd dim addysg gynradd wladol ar gost y wladwriaeth tan 1870.*<br>*I ba gasgliadau rydych chi'n dod am yr addysg oedd ar gael i blant a phobl ifanc yn Abertawe ym 1851 ar sail eich data?* | Cewch ddysgu mwy am addysg yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg ar Wikipedia ac addysg yng Nghymru yn http://history.powys.org.uk/history/common/edstart.html (Saesneg yn unig) ac www.visionofbritain.org.uk/atlas/nat_data_theme_page.jsp?data_theme=T_LEARN (Saesneg yn unig) Cewch weld canran y plant rhwng 5 a 14 oed oedd yn mynd i'r Ysgol Sul yn ardal Abertawe ym 1851 a faint oedd yn mynd i'r ysgolion gwirfoddol. | |
| | | **DANGOS Y CYFAN** |
| **DYNION A MENYWOD** | | |
| Sawl Penteulu yn y stryd sy'n ddyn? | | Hidlwch golofn E: **HEAD**<br>Hidlwch golofn G: **M** Defnyddiwch y llygoden i amlygu colofn G o'r gell ddata gyntaf a symudwch y cyrchwr i lawr i'r gell olaf i ddangos y cyfanswm. **Colofn G DANGOS Y CYFAN** |
| Sawl Penteulu sy'n fenyw? | | Hidlwch golofn G: **F** Defnyddiwch y llygoden i amlygu colofn G o'r gell ddata gyntaf a symudwch y cyrchwr i lawr i'r gell olaf i ddangos y |

## Abertawe Oes Fictoria - Cyfrif Pennau

| | DATA | AWGRYMIADAU AR GYFER CHWILIO'R DATA |
|---|---|---|
| | | cyfanswm. **Colofn G DANGOS Y CYFAN** |
| *A welwch chi ryw resymau pam mai'r menywod yw'r penteulu yn yr achosion hyn? A ydyn nhw i gyd yn gallu eu cynnal nhw'u hunain a'u teuluoedd?* | | |
| | | Yn ôl i **DANGOS Y CYFAN** |
| **LLETYWYR** | | |
| Faint o letywyr (*lodgers*) sydd yn y stryd? | | Hidlwch golofn E: **LODGER** |
| Faint o'r lletywyr sy'n fenywod? | | Hidlwch golofn E: **LODGER** Hidlwch golofn G: **F** |
| Faint o'r lletywyr sy'n ddynion? | | Hidlwch golofn E: **LODGER** Hidlwch golofn G: **M** |
| Sawl un o aelwydydd y stryd sydd â lletywyr? | | Hidlwch golofn E: **LODGER**. Edrychwch ar y 'Rhif/Schedule No.' yng Ngholofn B a mynd ati i gyfri'r gwahanol 'Rifau/Schedule Nos'. Mae gan bob aelwyd Rif gwahanol. |
| Edrychwch i weld o ble mae'r lletywyr yn dod. Ydi'r rhan fwyaf o'r lletywyr yn dod o'r tu allan i Abertawe? | | |
| Defnyddiwch y Rhifau/Schedule Nos i ddod o hyd i'r tŷ sydd â'r nifer fwyaf o letywyr yn y stryd. Os oes nifer o'r rhain, dewiswch yr un sydd â'r nifer fwyaf o bobl ar yr aelwyd. Beth yw'r cyfeiriad?<br><br>Faint o bobl sy'n byw ar yr aelwyd, yn cynnwys y lletywyr? | | Edrychwch ar y rhifau yng Ngholofn B. Dewiswch yr un sydd â'r nifer fwyaf o letywyr a nodi'r 'Rhif/Schedule No.' Yna, ewch yn ôl i'r saethau hidlo ar golofn E a Dewis **DANGOS Y CYFAN/SHOW ALL**. Nawr Hidlwch golofn B gan ddefnyddio'r Rhif/Schedule No. a bydd yr aelwyd sydd â'r nifer fwyaf o letywyr yn ymddangos. |
| A oes rhyw gysylltiad rhwng y lletywyr a'r teulu? Os oes, rhowch fanylion:<br>1. Gwaith?<br><br>2. Ardal enedigol? | | |
| A yw pobl sy'n gwneud gwaith penodol yn fwy tebygol o fod yn lletywyr? Rhowch enghreifftiau. | | |
| | | Yn ôl i **DANGOS Y CYFAN** |

# Abertawe Oes Fictoria - Cyfrif Pennau

| | DATA | AWGRYMIADAU AR GYFER CHWILIO'R DATA |
|---|---|---|
| **GWEISION A MORYNION** | | |
| Faint o weision a morynion (*servants*) sy'n byw ac yn gweithio yn y stryd? | | Hidlwch golofn E: **SERVANT** Cyfrifwch fel uchod |
| Ai gwrywaidd ynteu benywaidd yw'r rhan fwyaf o'r gweision a'r morynion? | | |
| A ydi'r gweision/morynion yn fwyaf tebygol o fod yn briod ynteu'n ddibriod? | | |
| Faint yw oedran y gwas/forwyn ieuengaf? | | Colofn H Bydd **Trefnu o'r Lleiaf i'r Mwyaf/Sort Ascending** yn rhestru'r gweision/morynion yn eu trefn o'r ieuengaf i'r hynaf |
| Faint yw oedran y gwas/forwyn hynaf? | | |
| *Sylwch ar y gwahanol fathau o weision/forynion a nodir!* | | **Er mwyn <u>dadwneud y TREFNU/SORT</u>** a mynd yn ôl at yr wybodaeth wreiddiol, Hidlwch golofn M **Trefnu o'r Lleiaf i'r Mwyaf/Sort Ascending neu'r** ddewislen **GOLYGU/EDIT – DADWNEUD TREFNU/UNDO SORT** |
| | | Colofn E: Yn ôl i **DANGOS Y CYFAN** |
| **TEULUOEDD** | | |
| Chwiliwch am deuluoedd yn y stryd sydd â 6 neu fwy o blant yn byw gartref. Faint o deuluoedd a welwch â 6 neu fwy o blant? | | Sgroliwch i lawr y rhestrau llawn gan edrych ar niferoedd y meibion a'r merched. Gallwch ddefnyddio'r offeryn amlygu i amlygu'r teuluoedd hyn wrth i chi ddod o hyd iddynt. |
| ***Beth rydych chi'n sylwi arno ynglŷn ag oedrannau'r plant?*** | | |
| Edrychwch ar waith y tad ac a oes rhai o'r plant yn gweithio hefyd. | | |

# Abertawe Oes Fictoria - Cyfrif Pennau

| | DATA | AWGRYMIADAU AR GYFER CHWILIO'R DATA |
|---|---|---|
| *Ar sail gwaith y tad/incwm y teulu, ydych chi'n meddwl bod y teuluoedd hyn yn debygol o fod yn dlotach neu'n gyfoethocach na theuluoedd llai o faint?* | | |
| | | Yn ôl i **DANGOS Y CYFAN** |
| **POBL HŶN** | | |
| Pa mor hen yw'r dyn hynaf? | | Hidlwch golofn G: **M** yna colofn H: **Trefnu o'r mwyaf i'r lleiaf/Sort descending** |
| Faint o ddynion sydd yn eu 90au?<br>80au?<br>70au? | | DEWISLEN **GOLYGU/EDIT – DADWNEUD TREFNU/UNDO SORT neu** Hidlwch Gol: M **Trefnu o'r Lleiaf i'r Mwyaf/Sort Ascending** |
| Pa mor hen yw'r fenyw hynaf? | | Hidlwch golofn G: **F** yna colofn H **Trefnu o'r Mwyaf i'r Lleiaf/Sort descending** |
| Faint o fenywod sydd yn eu 90au?<br>80au?<br>70au? | | DEWISLEN **GOLYGU/EDIT – DADWNEUD TREFNU/UNDO SORT neu** Hidlwch golofn M **Trefnu o'r Lleiaf i'r Mwyaf/Sort Ascending** |
| *A oes gwahaniaeth yn nisgwyliad oes dynion a menywod ar sail y ffigurau hyn?* | | |
| A ydi'r rhan fwyaf o'r bobl rhwng 60 a 90 oed yn gweithio? Os oes termau sy'n ddieithr i chi (e.e. Annuitant) chwiliwch am yr ystyr ar y we. | | Rhowch Hidlydd Personol/Custom Filter ar golofn H: **Dangos rhesi lle mae'r oed yn fwy na neu'n hafal i 60**<br>Sylwch: Nid yw pobl a nodir fel 'Living on their own means', 'Pensioners', 'Annuitants' a 'Fund Holders' yn cyfrif fel pobl sy'n gweithio. |
| Sut mae'r bobl hŷn yn eu cynnal eu hunain?<br>Sylwch: Nid oedd pobl hŷn yn cael pensiwn gan y wladwriaeth ym 1851. | | |
| | | **DANGOS Y CYFAN** |

## Taflan weithgareddau 2. Pobl Leol a Mewnfudwyr: Beth all y Cyfrifiad ei ddweud wrthym am wreiddiau'r bobl oedd yn byw yn Abertawe ym 1851?

Rydym yn ymchwilio i stryd neu ardal: ______________________________

Ym 1801, tref fechan o 6099 o bobl oedd Abertawe. Erbyn 1841 roedd poblogaeth y fwrdeistref wedi mwy na threblu i 20,152. Erbyn Cyfrifiad 1851, roedd dros 46,000 o bobl yn Abertawe a'r cylch a thua 20,000 yn y dref. O ble y daeth yr holl bobl hyn? Bydd pob grŵp yn edrych ar stryd neu ardal o Gyfrifiad 1851. Ar y diwedd, gallwch gymharu'ch canfyddiadau.

**Tabl 2.1**

| | DATA | AWGRYMIADAU AR GYFER CHWILIO'R DATA |
|---|---|---|
| **POBL LEOL A MEWNFUDWYR** | | |
| Faint o bobl yn y stryd gafodd eu geni yn Abertawe? | | Hidlwch golofn J a K: **Glamorgan Swansea**<br>Nodwch y cyfanswm yn Nhabl 2.2 isod |
| Pa ganran o holl bobl y stryd gafodd eu geni yn Abertawe? | | Edrychwch ar y cyfanswm o'ch ateb cyntaf. Cyfrifwch y ganran. |
| Faint o bobl gafodd eu geni y tu allan i Abertawe? | | Tynnwch nifer y bobl a aned yn Abertawe o'r cyfanswm. |
| Faint o bobl gafodd eu geni y tu allan i Forgannwg? | | Hidlwch golofn J: **Glamorgan** Tynnwch nifer y bobl a aned ym Morgannwg o'r cyfanswm. |
| Pa ganran gafodd eu geni y tu allan i Forgannwg? | | Edrychwch ar y cyfanswm o'ch ateb uchod. Cyfrifwch y ganran. |
| Faint o'r bobl oedd yn byw yn Abertawe gafodd eu geni yn siroedd eraill Cymru yn cynnwys Sir Fynwy (ond nid Morgannwg)? | | Defnyddiwch golofn J i ddewis pob un o siroedd Cymru. Gyda'r cyrchwr ar y rhes uchaf (o dan res y pennyn) amlygwch bob rhes yng ngholofn J. Ar y bar olaf yng ngwaelod y ffenest, fe welwch Cyfrif/Count = * gan ddangos nifer y bobl. Os nad yw Cyfrif/Count i'w weld, ewch i ExcelNotes. Rhowch y cyfansymiau ar y map o hen siroedd Cymru yn y ffeil Adnoddau. |
| *A oedd y bobl oedd yn byw yng nghanol Abertawe ym 1851 yn fwy tebygol o fod wedi'u geni yn Abertawe NEU mewn rhan arall o Gymru NEU y tu allan i Gymru?* | | |

# Abertawe Oes Fictoria - Cyfrif Pennau

| | DATA | AWGRYMIADAU AR GYFER CHWILIO'R DATA |
|---|---|---|
| | | **DANGOS Y CYFAN/SHOW ALL** |
| **MEWNFUDWYR AC YMWELWYR** | | |
| Faint o'r bobl yn eich stryd chi gafodd eu geni y tu allan i Gymru ond mewn rhan arall o'r Deyrnas Unedig? | | Sgroliwch i lawr restr y gwymplen hidlo ar gyfer Col. J a dewis hidlyddion ar gyfer lleoedd y tu allan i Gymru ond yn y Deyrnas Unedig. Nodwch y cyfrif ar waelod y dudalen ar gyfer pob grŵp. Ysgrifennwch y niferoedd yn Nhabl 2.2. |
| Faint o'r bobl yn eich stryd chi gafodd eu geni y tu allan i Brydain? | | Sgroliwch i lawr restr y gwymplen hidlo ar gyfer Col. J a dewis hidlyddion ar gyfer llefydd y tu allan i'r Deyrnas Unedig. Chwiliwch am y lle pellaf o Gymru. |
| Lle gawson nhw'u geni? Llanwch Dabl 2.3 isod. | | |
| Pwy sydd wedi symud bellaf i'ch stryd chi? | Chwiliwch am y wlad y daethant ohoni mewn atlas neu ar *Google Maps* http://maps.google.com/ (Saesneg yn unig) – gallwch hyd yn oed ddefnyddio Google Maps i weld pa ffordd y gallent fod wedi dod a faint o filltiroedd fyddai rhai o'r teithiau heddiw e.e. mae taith o tua 260 milltir o Gorc, Iwerddon i Abertawe! Os nad ydych wedi clywed am y wlad neu os nad yw'n bodoli erbyn hyn, chwiliwch amdani ar y rhyngrwyd a chwiliwch i weld sut wlad oedd hi rhwng 1800 a 1850. | |
| *Tybed sut gyrhaeddon nhw Abertawe? Meddyliwch pa ddulliau teithio oedd ar gael ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg.* | Pan fyddwch yn edrych ar y wlad ar Google Maps ac yn chwyddo allan fel y gallwch weld Cymru hefyd, ceisiwch feddwl ar hyd pa ffordd y byddai'r ymfudwr wedi dod i Abertawe. | |
| *Allwch chi weld ai gyda'u teulu ynteu ar eu pen eu hunain y daethon nhw yma?* | | |
| *Allwch chi weld a oedd pobl a aned mewn gwledydd tramor yn dueddol o briodi pobl leol ynteu aros yn eu cymunedau eu hunain?* | | |
| | | **DANGOS Y CYFAN** |

# Abertawe Oes Fictoria - Cyfrif Pennau

**Tabl 2.2 Defnyddiwch y tabl hwn i gofnodi lle cafodd y bobl yn eich stryd/heol/lôn eu geni. Defnyddiwch liw glas ar gyfer gwrywod a lliw coch ar gyfer benywod.**

| Lle cafodd y bobl oedd yn byw yn Abertawe ar 30 Mawrth 1851 eu geni | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ABERTAWE | Gweddill MORGANNWG heb gynnwys Abertawe | Gweddill CYMRU | LLOEGR | IWERDDON | YR ALBAN | DRAMOR |
| | | | | | | |
| Cyfanswm | Cyfanswm | Cyfanswm | Cyfanswm | Cyfanswm | Cyfanswm | Cyfanswm |

**Tabl 2.3 Cofnodwch wybodaeth am y bobl oedd yn byw yn eich stryd ym 1851 ac a aned y tu allan i'r Deyrnas Unedig. Os nad oes swydd wedi'i chofnodi, rhestrwch y plant a'r gwragedd priod yn ôl swydd eu tad/gŵr fel isod.**

| **Enw'r Stryd/Lôn/Heol** | | | |
|---|---|---|---|
| **Gwryw (M) / Benyw (F)** | **Swydd y mewnfudwr** | **Lle cafodd ei (g)eni – Gwlad a thref neu ardal os gwyddoch** | **Tua pryd y daeth i Gymru?** *(gweler y nodyn isod)* |
| *e.e. F* | *Wife of clockmaker* | *Gwlad Pwyl* | *Cyn 1842* |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

# Abertawe Oes Fictoria - Cyfrif Pennau

| **Enw'r Stryd/Lôn/Heol** | | | |
|---|---|---|---|
| **Gwryw (M) / Benyw (F)** | **Swydd y mewnfudwr** | **Lle cafodd ei (g)eni – Gwlad a thref neu ardal os gwyddoch** | **Tua pryd y daeth i Gymru?** *(gweler y nodyn isod)* |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

**Pryd ddaethon nhw i Gymru?** Chwiliwch am gliwiau yn oedran a mannau geni'r plant. Er enghraifft, mae'n debygol y byddai dyn o dramor oedd yn briod â menyw o Abertawe wedi cyrraedd Prydain cyn cwrdd â hi a'i phriodi. Bydd oedran y plant yn rhoi syniad i ni tua phryd yr oedd hyn. Os oedd y gŵr a'r wraig wedi'u geni y tu allan i Brydain, bydd oedran a mannau geni'r plant yn awgrymu pryd y cyrhaeddodd y cwpwl i Brydain. Ni fydd modd dyfalu pryd y cyrhaeddodd mewnfudwyr dibriod sydd ddim yn rhan o deulu.

**Preswylydd neu ymwelydd?** Roedd Abertawe'n dref borthladd ac felly mae'n debygol y byddai morwyr o dramor yn aros am ychydig yn y dref ar noson y Cyfrifiad. Edrychwch ar y rhestr yn Nhabl 2.3 eto i weld a allwch ganfod pwy oedd yn byw yn y dref a phwy oedd yn ymweld am gyfnod byr.

**Allwn ni ddysgu rhagor?** Dydi hi ddim bob amser yn hawdd dysgu mwy am y bobl yn eich stryd a gafodd eu geni y tu allan i'r Deyrnas Unedig. Doedd crefydd ac iaith ddim yn cael eu cofnodi yng Nghyfrifiad 1851. Mae'n debygol mai Iddewon oedd rhai o'r bobl o'r hyn sy'n cael ei gyfrif fel 'Ewrop' erbyn hyn. Edrychwch ar y gwefannau hyn i weld tybed ai Iddewon oedd rhai o bobl eich stryd chi a aned dramor. Ar gyfer Iddewon - www.jgsgb.org.uk/ a www.jewishgen.org/databases/uk/walescen.htm (Saesneg yn unig).

**Taflan weithgareddau 3. Pobl wrth eu Gwaith – Beth all y cyfrifiad ei ddweud wrthym am y bobl oedd yn byw ac yn gweithio yng nghanol Abertawe ym 1851?**

Rydym yn ymchwilio i stryd neu ardal: ______________________________

| | DATA | AWGRYMIADAU AR GYFER CHWILIO'R DATA |
|---|---|---|
| **OEDRAN GWEITHIO** | | |
| Faint o fechgyn sydd rhwng 10 ac 20 oed?<br><br>Faint o'r rhain sydd mewn addysg (*scholars*)?<br>Faint o'r rhain sydd mewn gwaith cyflogedig?<br>Pa ganran o'r merched rhwng 10 ac 20 oed sydd mewn gwaith cyflogedig? | | Hidlwch golofn G: **M** Rhowch hidlydd personol/custom filter ar: colofn H **10-20 (yn fwy na neu'n hafal i 10 AC yn llai na neu'n hafal i 20) –** amlygwch y golofn a **Cyfrif**<br>Hidlwch golofn I: **Scholar** a **Scholar at home** ac yna colofn I **DANGOS Y CYFAN**<br>Colofn I **Dangos Ddim yn Wag/Show NonBlanks** (gwaelod y gwymplen) **–** tynnwch **Scholars**<br>**DANGOS Y CYFAN** |
| Faint o ferched sydd rhwng 10 ac 20 oed?<br><br>Faint o'r rhain sydd mewn addysg (*scholars*)?<br>Faint o'r rhain sydd mewn gwaith cyflogedig?<br>Pa ganran o'r merched rhwng 10 ac 20 oed sydd mewn gwaith cyflogedig? | | Hidlwch golofn G: **F** Rhowch hidlydd personol/custom filter ar: golofn H **10-20 (yn fwy na neu'n hafal i 10 AC yn llai na neu'n hafal i 20)** – amlygwch y golofn a **Cyfrif**<br>Hidlwch golofn I: **Scholar** a **Scholar at home** ac yna colofn **I DANGOS Y CYFAN**<br>Colofn I **Dangos Ddim yn Wag/Show NonBlanks –** tynnwch **Scholars**<br>**DANGOS Y CYFAN** |
| *Os oes gwahaniaeth rhwng y bechgyn a'r merched, allwch chi awgrymu pam?* | | |
| *Ar sail hyn, beth oedd oedran y rhan fwyaf o ddynion a merched ifanc yn dechrau gweithio yn y 1850au yn Abertawe?* | | |
| Pwy yw'r dyn hynaf sy'n gweithio (ddim yn '*retired*', '*fund holder*' nac yn '*annuitant*')? Rhowch ei enw, ei oedran a'i waith | | Hidlwch golofn G: **M** yna colofn H: **Sort descending** |
| Pwy yw'r bachgen ieuengaf? Rhowch ei enw, ei oedran a'i waith | | **Er mwyn dadwneud y trefnu** a mynd yn ôl at yr wybodaeth wreiddiol, Hidlwch golofn **M Trefnu o'r Lleiaf i'r Mwyaf/Sort Ascending neu'r** ddewislen **GOLYGU/EDIT – DADWNEUD TREFNU/UNDO SORT** |

# Abertawe Oes Fictoria - Cyfrif Pennau

| | DATA | AWGRYMIADAU AR GYFER CHWILIO'R DATA |
|---|---|---|
| Pwy yw'r fenyw hynaf sy'n gweithio (ddim yn '*retired*', '*fund holder*' nac yn '*annuitant*')? Rhowch ei henw, ei hoedran a'i gwaith | | Hidlwch golofn G: **F** yna colofn H: **Trefnu o'r Mwyaf i'r Lleiaf/Sort descending** |
| Pwy yw'r ferch ieuengaf? Rhowch ei henw, ei hoedran a'i gwaith | | **Er mwyn dadwneud y trefnu** a mynd yn ôl at yr wybodaeth wreiddiol, Hidlwch golofn **M Trefnu o'r Lleiaf i'r Mwyaf/Sort Ascending** neu'r ddewislen **GOLYGU/EDIT – DADWNEUD TREFNU/UNDO SORT** |
| *Ar sail hyn, ydych chi'n credu bod yna oedran ymddeol ar gyfer dynion a menywod yn y 1850au? Pryd roedd pobl yn rhoi'r gorau i weithio?* | | |
| | | Yn ôl i **DANGOS Y CYFAN** |
| **MENYWOD** | | |
| Faint o ferched a menywod sy'n byw yn y stryd? | | Hidlwch golofn G: **F** Amlygwch y golofn ac fe welwch **Cyfrif/Count** |
| Faint o'r rhain dros 10 oed sydd â swydd wedi'i rhestru? | | Rhowch Hidlydd Personol/Custom Filter ar golofn H **Oedran yn fwy na 10** yna Gol. I **Dangos Ddim yn Wag/Show NonBlanks** (gwaelod y gwymplen). Cyfrifwch nhw fel uchod. |
| Faint o'r rhain sy'n fenywod priod? | | Hidlwch golofn F **Married** |
| *Darllenwch y rhestr o swyddi. Oes swydd gan y menywod priod hyn <u>i gyd</u> mewn gwirionedd? MEDDYLIWCH! Beth mae hyn yn ei ddweud wrthych am gyfleoedd gwaith ar gyfer menywod priod ym 1851? NEU efallai nad oedd y cyfrifwr yn cydnabod gwaith menywod. Er enghraifft, mae'n debygol y byddai gwragedd y tafarnwr neu ddyn y siop tybaco yn gweithio yn y dafarn neu'r siop gyda'i gŵr.* | | Colofn F **DANGOS Y CYFAN** |
| Gyda data colofn G wedi'i amlygu, sgroliwch i lawr swyddi'r holl fenywod. Efallai yr hoffech ddefnyddio'r tabl ar wahân, Gwaith Menywod (isod) i gofnodi'r mathau o waith oedd gan fenywod. Beth yw'r tri math mwyaf cyffredin o waith ar gyfer menywod a merched y stryd? A oes un sydd fwyaf cyffredin? | | Sgroliwch i lawr y rhestr yng Nghol. G a dewis hidlyddion ar gyfer y swyddi mwyaf cyffredin, yn eich barn chi. Os yw data Col. G wedi'i amlygu, bydd y Cyfrif yn ymddangos ar waelod y ffenest bob tro<br><br>Colofn I **DANGOS Y CYFAN** |
| Faint o fenywod sy'n weddwon yn eich stryd chi? | | Hidlwch golofn F **Widow. Cyfrifwch** fel uchod<br>***DANGOS Y CYFAN*** |

# Abertawe Oes Fictoria - Cyfrif Pennau

| | DATA | AWGRYMIADAU AR GYFER CHWILIO'R DATA |
|---|---|---|
| Os yw menyw'n weddw, ydi hi'n fwy tebygol o fod yn gweithio? | | Efallai yr hoffech sgrolio i lawr trwy'r daflen gyfan i edrych ar aelwydydd neu deuluoedd y gweddwon i weld sut roedden nhw'n cael eu cynnal. |
| *Os nad ydynt yn gweithio, sut maent yn cael eu cynnal?* | | |
| | | Yn ôl i **DANGOS Y CYFAN** |
| **SWYDDI DIRGEL** | | |
| Chwiliwch am o leiaf dair swydd yng Ngholofn I nad ydych wedi clywed amdanynt o'r blaen a defnyddiwch y rhyngrwyd i gael gwybod beth mae'r person hwnnw'n ei wneud. Os nad ydych chi'n gallu dod o hyd i'r swydd, ceisiwch ddyfalu! Gall rhai o'r rhain eich helpu â'r cwestiynau nesaf!<br><br>1.<br><br>2.<br><br>3. | Cwymplen hidlo colofn I.<br>Gwefannau:<br>http://rmhh.co.uk/occup/<br>http://www.worldthroughthelens.com/family-history/old-occupations.php<br>http://www.onealwebsite.com/oldoccs.htm<br>http://www.genuki.org.uk/big/Occupations.html<br>(Saesneg yn unig)<br>Gall Wicipedia helpu hefyd.<br>Dydi'r gwefannau hyn ddim yn dangos y swyddi i gyd. Efallai y bydd angen i chi wneud rhagor o waith ymchwil. Cofiwch hefyd fod llawysgrifen y cyfrifwr yn anodd ei darllen weithiau ac efallai nad yw'r holl swyddi wedi'u trawsgrifio'n iawn. | |
| *Ydych chi'n meddwl mai stryd o dai ynteu stryd o fusnesau oedd hon yn bennaf? Neu gyfuniad o'r ddau?* | | |

# Abertawe Oes Fictoria - Cyfrif Pennau

**PA WAITH OEDD MENYWOD YN EI WNEUD? Ydi'r cyfrifiad yn gallu helpu?**
Gallwch roi'r hidlydd ar swyddi (*occupation*) i weld pa fath o waith roedd menywod yn ei wneud. Llanwch y tabl isod:

| GRŴP GALWEDIGAETHOL | IS-GRŴP GALWEDIGAETHOL | NIFER |
|---|---|---|
| ADDYSG | Athrawes e.e. *teacher, school mistress, governess* | |
| GWEINI (mewn tŷ preifat) | *Housemaid, domestic, laundress, cook, nurse, nursemaid, charwoman, servant, housekeeper, house servant* | |
| Â GOFAL AM SIOP NEU FUSNES | *Draper, grocer, manager, dealer, bookseller, fruiterer, stationer, confectioner* | |
| GWEITHIO MEWN SIOP, TAFARN NEU WESTY | *Shop assistant, barmaid, waitress, chambermaid, cook, kitchenmaid* | |
| Â GOFAL AM DAFARN NEU WESTY | *Innkeeper, publican, keeper of porter stores, hotel keeper* | |
| GWAITH Â SGIL | *Milliner, dressmaker, upholsteress, tailoress* | |
| DYSGU CREFFT | *Apprentice* | |
| GWEITHIO I RYWUN MEWN BUSNES | *Assistant* | |
| AMAETHYDDIAETH | *Farmer* | |
| CADW LLETYWYR NEU'N BERCHEN AR EIDDO | *Proprietor, Lodging House Keeper* | |
| ARALL | Unrhyw waith arall | |
| DIM GWAITH | *Living on own means, annuitant, retired, Lady, Fund Holder, scholar* | |
| DIM GWAITH | Dim swydd wedi'i rhestru ar y cyfrifiad | |

## Nodiadau i athrawon – Defnyddio Microsoft Excel gyda'r cyfrifiad

Pethau y gallwch eu gwneud gyda rhestr neu ddalen data Excel fel manylion cyfrifiad 1851 ar gyfer rhannau o Abertawe:

- Cuddio colofnau data nad oes arnoch mo'u hangen
- Rhoi'r rhestr yn nhrefn yr wyddor, yn nhrefn rhifau neu mewn trefn bersonol
- Dangos is-set o resi trwy hidlo i gael gweld dim ond y data o'ch dewis
- Cael cyfrif o'r data a hidlwyd

**CUDDIO COLOFNAU NAD OES ARNOCH MO'U HANGEN:**
Gallwch guddio colofnau o ddata nad oes arnoch mo'u hangen. Mae hyn yn gwneud y dalenni gwaith yn symlach ar gyfer y myfyrwyr. Gallwch wneud hyn cyn y dosbarth fel mai dim ond y data sy'n berthnasol i'w gwaith y mae'r myfyrwyr yn eu gweld.

**I WNEUD HYN:**
Dewiswch y golofn ddiangen trwy glicio ar frig y golofn a bydd yn newid lliw. I ddewis mwy nag un golofn, daliwch y fysell Control i lawr wrth i chi glicio ar frig y golofn nesaf. Bydd pob un a ddewisir yn cael ei hamlygu. Pan fyddwch wedi dewis y colofnau i'w cuddio, ewch i'r ddewislen **FFORMATIO**. Dewiswch yr is-ddewislen **COLOFN** a chlicio ar **CUDDIO**. Bydd y colofnau a ddewiswyd yn diflannu. Gallwch wneud yr un peth â rhesi. Er mwyn adfer y data a guddiwyd, gwnewch yr un peth ond cliciwch ar **DATGUDDIO** a bydd y golofn/rhes yn ailymddangos.


**MODD HIDLO:**
Gallwch chi a'ch myfyrwyr ddefnyddio hwn i hidlo'r data. Mae'r camau isod i gyd yn haws os ewch i'r **MODD HIDLO** o'r dechrau.

**I WNEUD HYN:**
Yn gyntaf, cliciwch ar y Rhes Pennyn (sy'n dechrau â **ROAD**) ac fe gaiff ei hamlygu. Yna, ewch i'r ddewislen **DATA** a'r is-ddewislen **HIDLO** a chlicio ar **AWTO HIDLO**. Bydd saethau duon yn ymddangos ar frig y colofnau fel cwymplen (gweler Ffig. 1 isod). Mae'r saethau duon a'r tag **Modd Hidlo/Filter Mode** yng nghornel chwith isaf y ffenestr (gweler Ffig. 10 isod) yn dangos bod y modd hidlo ymlaen.

**I DREFNU'R RHESTR:**
Yn nhrefn yr wyddor (e.e. yn ôl Cyfenw): Mae sawl ffordd o wneud hyn. Y ffordd hawsaf yw mynd i'r Modd Hidlo (gweler uchod).


Yn awr, cliciwch ar saethau duon y golofn ddata rydych am ei threfnu e.e. Cyfenwau. Bydd cwymplen hidlo'n ymddangos â **TREFNU O A i Z** fel y dewis cyntaf. Cliciwch ar hwnnw. Er mwyn adfer y data gwreiddiol, cliciwch ar **DANGOS Y CYFAN**.

**Ffig. 1**




Neu gallwch glicio ar gell yn y golofn rydych am ei threfnu ac yna fynd i'r ddewislen **DATA** a dewis **TREFNU**. Bydd ffenestr **TREFNU** (gweler isod) yn ymddangos i ddangos y data rydych wedi dewis eu trefnu ac yn cynnig y dewisiadau **TREFNU A i Z** neu **TREFNU Z i A**. **Cliciwch IAWN.** Dewiswch **DAD-WNEUD** o'r ddewislen **GOLYGU** i adfer y rhestr wreiddiol.

**Ffig. 2**




**I HIDLO DATA:**

Er mwyn trefnu data i weld yr hyn y mae arnoch ei angen yn unig (e.e. Pennau Teuluoedd yn unig), yn gyntaf cliciwch ar y Rhes Pennyn (sy'n dechrau â **ROAD**), yna ewch i'r ddewislen **DATA**, yr is-ddewislen **HIDLO** a chlicio ar **AWTO HIDLO**. Bydd saethau duon yn ymddangos ar frig y colofnau fel cwymplen. Pan gliciwch ar un o'r rhain (e.e. Relations to Head), bydd cwymplen â'r holl dermau yn y golofn honno'n ymddangos. Yna, dim ond y data y dymunwch eu gweld fydd i'w gweld ar y daflen waith – hynny yw, yr holl Bennau Teuluoedd. Bydd saethau'r colofnau a hidlwyd yn las. Yna, os byddwch am weld faint ohonynt sy'n fenywod, gallwch hidlo eto. Cliciwch ar **SEX** a dewis **FEMALE** o'r gwymplen.

**Ffig. 3**

Saethau hidlo

1851 Wind St.xls

| | A | B | C | D | E | F | G | H | I | J | K |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | ROAD | NC | SURNAN | 1ST NAM | RELATION | CONDI | SE | AGI | OCCUPATION | BORN | CITY/TOWN |
| 14 | Wind St | 4 | Nash | Ellen | Head | Unmarriec | F | | Fruiterer | Glamorganshire | Swansea |
| 32 | 8 Wind St | 7 | Thomas | Mayzod | Head | Widow | F | 61 | Upholsterer | Glamorganshire | Bishopston |
| 36 | 9 Wind St | 8 | Cadwallade | Elizabeth | Head | Widow | F | 82 | Tailoress | Glamorganshire | Swansea |
| 39 | Wind St | 9 | Searle | Martha | Head | Widow | F | 63 | Publican business | Glamorganshire | Swansea |
| 63 | 14 Wind St | 12 | Brace | Elizabeth | Head | Unmarriec | F | 24 | Milliner | Gloucestershire | Lydney |
| 111 | Wind St | 19 | Worth | Susan | Head | Unmarriec | F | 38 | Keeper of porter sto | Cornwall | Fowey |
| 133 | Wind St | 23 | Jenkins | Eliza H | Head | Unmarriec | F | 50 | Bookseller and stati | Worcestershire | Not given |
| 151 | Wind St | 26 | Havard | Rachael | Head | Unmarriec | F | 24 | Grocer | Glamorganshire | Swansea |
| 187 | Wind St | 31 | Haines | Elizabeth | Head | Widow | F | 52 | Inn keeper | Devonshire | Devonport |
| 199 | Wind St | 34 | Brown | Sarah | Head | Widow | F | 56 | Fruiterer | Glamorganshire | Swansea |
| 202 | Wind St | 35 | Allen | Mary E | Head | Widow | F | 45 | Lodging house keep | Glamorganshire | Swansea |
| 237 | Wind St | 40 | Jenkins | Mary | Head | Widow | F | 69 | Proprietor of houses | Glamorganshire | Llansamlet |
| 257 | Wind St | 43 | Mason | Mary | Head | Unmarriec | F | 36 | Confectioner | Monmouthshire | Monmouth |
| 259 | 50 Wind St | 44 | Jancey | Mary | Head | Unmarriec | F | 36 | Hotel keeper | Bristol | Bristol |
| 268 | Wind St | 45 | Jenkins | Margaret | Head | Widow | F | 78 | | Devonshire | Topsham |
| 277 | Wind St | 48 | Coates | Elizabeth P | Head | Married | F | 37 | Tobacconists wife | Bristol | St Nicholas |
| 311 | Wind St | 55 | Gregory | Ann | Head | Widow | F | 40 | Publican | Cardiganshire | Cardigan |
| 340 | | | | | | | | | | | |

I fynd yn ôl i'r daflen ddata wreiddiol, cliciwch ar y ddewislen **DATA** ac yna ddewis **DANGOS Y CYFAN** o'r gwymplen. Pryd bynnag y dangosir y saethau ar frig y colofnau, gallwch hidlo'r data. Gallwch drefnu yn ôl:

**Cyfenw e.e. EVANS**

**Ffig. 4**

1851 Wind St.xls

| | A | B | C | D | E | F | G | H | I | J | K |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | ROAD | NC | SURNAN | 1ST NAM | RELATION | CONDI | SE | AGI | OCCUPATION | BORN | CITY/TOWN |
| 18 | Wind St | 5 | Evans | David W | Head | Married | M | 31 | General draper | Glamorganshire | Swansea |
| 19 | | | Evans | Anne | Wife | Married | F | 31 | | Glamorganshire | Cardiff |
| 20 | | | Evans | Sarah A | Daughter | | F | 5 | Scholar | Glamorganshire | Swansea |
| 21 | | | Evans | David W | Son | | M | 3 | | Glamorganshire | Swansea |
| 22 | | | Evans | Margaret | Daughter | | F | 1 | | Glamorganshire | Swansea |
| 103 | | | Evans | Jane | Servant | Unmarriec | F | 29 | Cook | Glamorganshire | Swansea |
| 172 | Wind St | 29 | Evans | William | Head | Married | M | 47 | Block maker | Glamorganshire | Swansea |
| 173 | | | Evans | Ann | Wife | Married | F | 48 | | Glamorganshire | Swansea |
| 174 | | | Evans | William | Son | Unmarriec | M | 22 | Ship carpenter | Glamorganshire | Swansea |
| 175 | | | Evans | John | Son | Unmarriec | M | 19 | Ship carpenter | Glamorganshire | Swansea |
| 176 | | | Evans | Catherine | Daughter | Unmarriec | F | 16 | Dress maker | Glamorganshire | Swansea |
| 177 | | | Evans | Thomas | Son | | M | 15 | Block maker | Glamorganshire | Swansea |
| 178 | | | Evans | David M | Son | | M | 11 | Scholar | Glamorganshire | Swansea |
| 201 | | | Evans | Ann | Servant | Unmarriec | F | 24 | House servant | Carmarthenshire | Carmarthen |
| 310 | | | Evans | Henry | Journeyman | Unmarriec | M | 20 | Cordwainer | Pembrokeshire | Lawrenny |

**Perthynas a Phen y Teulu e.e. HEAD neu WIFE neu BOARDER neu LODGER**

**Ffig. 5**

1851 Wind St.xls

| | A | B | C | D | E | F | G | H | I | J | K | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | ROAD | NC | SURNAN | 1ST NAM | RELATION | CONDI | SE | AGI | OCCUPATION | BORN | CITY/TOWN | Colu |
| 43 | | | Goodwin | John | Lodger | Unmarriec | M | 41 | Coach guard | Cambridgeshire | Thorny Abbey | |
| 96 | | | Dalton | Margaret | Lodger | Unmarriec | F | 50 | Independent lady | Glamorganshire | Swansea | |
| 99 | | | Denston | Ann | Lodger | Unmarriec | F | 85 | Fund holder | Shropshire | Not given | |
| .00 | | | Orde | Robert | Lodger | Married | M | 38 | Ship owner | Durham | Sunderland | |
| .01 | | | Orde | Margaret | Lodger | Married | F | 37 | | Durham | Sunderland | |
| .32 | | | Alder | Charles | Lodger | Unmarriec | M | 24 | General servant | Gloucestershire | King Stanley | |
| .36 | | | Bedford | Emma | Lodger | Unmarriec | F | 24 | Professor of dancing | Somerset | Bath | |
| .45 | | | Brewster | William M | Lodger | Unmarriec | M | 28 | Bookseller and stati | Lincolnshire | Laceby | |
| .57 | | | Isaac | Alfred | Lodger | Widower | M | 28 | Workery jeweller | Glamorganshire | Llanelli | |
| .58 | | | Jones | Benjamin | Lodger | Married | M | 26 | Painter | Carmarthenshire | Carmarthen | |
| .69 | | | Griffin | David | Lodger | Unmarriec | M | 17 | Basket maker | Ireland | Youghal | |
| .70 | | | Griffin | Mary | Lodger | | F | 15 | Dress maker | Ireland | Youghal | |
| .71 | | | Amy | David P | Lodger | Unmarriec | M | 35 | Master mariner | Jersey | Jersey | |
| .79 | | | Llewellyn | William | Lodger | Married | M | 20 | Unknown | Pembrokeshire | Tenby | |
| .80 | | | Webster | Alpha | Lodger | Married | M | 23 | Mariner | London | London | |

**Proffesiwn e.e. CONFECTIONERS neu DRESSMAKERS**

**Ffig. 6**

1851 Wind St.xls

| | A | B | C | D | E | F | G | H | I | J | K | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | ROAD | NO | SURNAM | 1ST NAM | RELATION | CONDI | SE | AGI | OCCUPATION | BORN | CITY/TOWN | Col |
| 7 | Wind St | 2 | Alderson | William | Head | Married | M | 42 | Confectioner | Surrey | Streatham | |
| 220 | Wind St | 38 | Biddle | William | Head | Married | M | 34 | Confectioner | Gloucestershire | Stonehouse | |
| 227 | | | Biddle | Nathaniel | Brother | Unmarriec | M | 30 | Confectioner | Gloucestershire | Stonehouse | |
| 257 | Wind St | 43 | Mason | Mary | Head | Unmarriec | F | 36 | Confectioner | Monmouthshire | Monmouth | |

**Oedran e.e. hidlydd personol (gweler isod) ar bawb sy'n 12 neu'n iau**

**Ffig. 7**

1851 Wind St.xls

| | A | B | C | D | E | F | G | H | I | J | K |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | ROAD | NO | SURNAM | 1ST NAM | RELATION | CONDI | SE | AGI | OCCUPATION | BORN | CITY/TOWN |
| 6 | | | Ward | Samuel | Grandson | | M | 8 | | Glamorganshire | Swansea |
| 17 | | | Phillips | Mary | Visitor | | F | 9 | | Glamorganshire | Gower |
| 20 | | | Evans | Sarah A | Daughter | | F | 5 | Scholar | Glamorganshire | Swansea |
| 21 | | | Evans | David W | Son | | M | 3 | | Glamorganshire | Swansea |
| 22 | | | Evans | Margaret | Daughter | | F | 1 | | Glamorganshire | Swansea |
| 25 | | | James | Richard | Servant | | M | 12 | Errand boy | Glamorganshire | Cardiff |
| 28 | | | Henessey | Bernard M | Son | | M | 5.5 | | Glamorganshire | Swansea |
| 29 | | | Henessey | Richard C | Son | | M | 3.5 | | Glamorganshire | Swansea |
| 30 | | | Henessey | Bessy | Daughter | | F | 1.5 | | Glamorganshire | Swansea |
| 33 | | | Roff | Mayzod A | Granddaughter | | F | 9 | Scholar | Cambridgeshire | Cambridge |
| 41 | | | Williams | Elizabeth | Niece | | F | 9 | Scholar | Glamorganshire | Aberavon |
| 60 | | | Jones | George B | Son | | M | 8 | Scholar | Berkshire | Winkfield |
| 74 | | | Roberts | William | Son | | M | 11 | Scholar | Glamorganshire | Swansea |
| 75 | | | Roberts | Eliezer | Son | | M | 9 | Scholar | Glamorganshire | Swansea |
| 76 | | | Roberts | Frederick | Son | | M | 7 | Scholar | Glamorganshire | Swansea |
| 79 | | | Brader | Mary J | Daughter | | F | 9 | Scholar at home | Middlesex | Not given |
| 80 | | | Brader | John | Son | | M | 8 | Scholar at home | Glamorganshire | Swansea |
| 81 | | | Brader | Fanny | Daughter | | F | 5 | Scholar at home | Glamorganshire | Swansea |
| 82 | | | Brader | Gwynne H | Son | | M | 1 | | Glamorganshire | Swansea |
| 88 | | | Pearse | Charles T | Brother | | M | 12 | Scholar | Somerset | Crewkerne |
| 94 | | | Tyte | William | Son | | M | 10 | Scholar | Somerset | Wells |
| 102 | | | West | Mary | Niece | | F | 12 | Scholar | Bristol | Bristol |
| 105 | | | Robins | Elizabeth | Servant | | F | 11 | Errand servant | Glamorganshire | Swansea |

**Gwlad neu Sir eu geni e.e. SIR FORGANNWG neu IWERDDON**

**Ffig. 8**

1851 Wind St.xls

| | A | B | C | D | E | F | G | H | I | J | K |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | ROAD | NO | SURNAM | 1ST NAM | RELATION | CONDI | SE | AGI | OCCUPATION | BORN | CITY/TOWN |
| 26 | 7 Wind St | 6 | Henessey | Bernard | Head | Married | M | 28 | Watch manufacturer | Ireland | Dublin |
| 67 | | | Lang | George | Visitor | Unmarriec | M | 31 | Lieutenant in the Ar | Ireland | Not given |
| 159 | 29 Wind St | 28 | Davies | Thomas | Head | Married | M | 47 | Ship broker, Inn kee | Ireland | Wicklow |
| 169 | | | Griffin | David | Lodger | Unmarriec | M | 17 | Basket maker | Ireland | Youghal |
| 170 | | | Griffin | Mary | Lodger | | F | 15 | Dress maker | Ireland | Youghal |
| 198 | | | Dunnovan | Catherine | Visitor | Married | F | 40 | Navigators wife | Ireland | Cork |

**Hefyd:**

Statws e.e. GWEDDW neu PRIOD
Rhyw e.e. F (female)
Dinas/Man geni e.e. ABERTAWE


Gallwch drefnu gan ddefnyddio cyfuniad o hidlyddion e.e. FEMALE a HEAD neu FEMALE ac UNMARRIED. Gallwch gael cyfanswm canlyniadau’r hidlo. Yn ogystal, gallwch eithrio data gan ddefnyddio HIDLYDD PERSONOL.

**CYFRIF Y DATA A HIDLWYD: (Faint o bobl a anwyd yn Sir Gaerfyrddin? Yn Iwerddon?)**
Pan ddefnyddiwch hidlydd, dim ond rhif gwreiddiol y rhes a welir, mewn glas, yn y golofn rifau ar ochr chwith y dudalen. Ond does dim rhaid i chi fynd ati i gyfrif y data sydd wedi’u hidlo!

1. Pan fydd canlyniadau’r hidlo i’w gweld ar y sgrin, amlygwch ddim ond y celloedd data yn y golofn rydych am ei chyfrif gan ddefnyddio’r cyrchwr. Peidiwch â chynnwys y rhesi pennyn.


2. Edrychwch ar y bar isaf ar waelod y ffenestr. Fe welwch Modd Hidlo yn y gornel chwith. Yng nghanol y bar, dylech weld adran sydd naill ai'n wag neu â gair gwelw fel 'Cyfrif: 1 (gweler Ffig. 9).

**Ffig. 9**





3. Os nad yw'r gair 'Cyfrif:' i'w weld, cliciwch y cyrchwr ar y rhan honno o'r bar ac fe gewch ddewislen (gweler isod). Cliciwch ar Cyfrif ac fe welwch 'Cyfrif:' yn ymddangos yn y bar gwaelod.

**Ffig. 10**




4. Os yw'ch colofn ddata wedi'i hamlygu, dylai'r cyfrif ddangos cyfanswm y cofnodion y mae arnoch eu hangen. Gweler enghraifft o hidlydd i ddangos cyfanswm y bobl yn Wind St a aned yn Iwerddon – 6.

**Ffig. 11**



**DEFNYDDIO HIDLYDD: (Dangos yr holl Bennau Teuluoedd)**

1. Gofalwch eich bod yn y **MODD HIDLO (gweler uchod)**
2. Cliciwch ar saeth y golofn yr ydych yn dymuno cael yr wybodaeth ohoni. Bydd is-gwymplen o'r holl dermau yn y golofn honno'n ymddangos.
3. Dewiswch y term perthnasol e.e. **HEAD**
4. Yn awr, dylai'r sgrin restru'r holl bennau teuluoedd.
5. Er mwyn mynd yn ôl at y data gwreiddiol, heb eu hidlo, ewch yn ôl i'r ddewislen **DATA** a dewis **DANGOS Y CYFAN**.

**DEFNYDDIO HIDLYDD PERSONOL: (Dangos yr holl bobl sydd dros 60 oed)**


1. Gofalwch eich bod yn y **MODD HIDLO**
2. Cliciwch ar saeth y golofn yr ydych yn dymuno cael yr wybodaeth ohoni e.e. Oed (Colofn H) Bydd is-gwymplen o'r holl dermau yn y golofn honno'n ymddangos.
3. Dewiswch **(HIDLYDD PERSONOL) / (CUSTOM FILTER)**. Bydd ffenestr **AWTO HIDLO PERSONOL** yn ymddangos a fydd yn cynnig sawl blwch ar ôl gosodiad fel "Dangos rhesi lle mae'r OED…"

**Ffig. 12**




4. Dewiswch y saeth ar y blwch cyntaf. Cewch gynnig sawl dewis o gwymplen e.e. YN HAFAL I neu YN LLAI NA NEU'N HAFAL I. Dewiswch yr un y mae arnoch ei angen, yn yr achos hwn '**YN FWY NA**'
5. Yn y blwch i'r dde, dewiswch derm arall e.e. **60**. Mae gennych ddewisiadau eraill yn y blychau isod. Yna cliciwch ar **IAWN**.
6. Yn awr, dylai'r sgrin restru'r holl bobl sydd dros 60 oed. Yna, gallwch ddefnyddio'r saethau **AWTO HIDLO** i gyfyngu'r data eto i bob menyw dros 60 neu bob dyn dros 60.

**Ffig. 13**


1851 Wind St.xls

| | A | B | C | D | E | F | G | H | I | J | K |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | ROAD | NC | SURNAI | 1ST NAM | RELATION | CONDI | SE | AGI | OCCUPATION | BORN | CITY/TOWN |
| 4 | | | Ward | Elizabeth | Wife | Married | F | 61 | Dealer in Furniture | London | London |
| 32 | 8 Wind St | 7 | Thomas | Mayzod | Head | Widow | F | 61 | Upholsterer | Glamorganshire | Bishopston |
| 36 | 9 Wind St | 8 | Cadwallade | Elizabeth | Head | Widow | F | 82 | Tailoress | Glamorganshire | Swansea |
| 39 | Wind St | 9 | Searle | Martha | Head | Widow | F | 63 | Publican business | Glamorganshire | Swansea |
| 99 | | | Denston | Ann | Lodger | Unmarriec | F | 85 | Fund holder | Shropshire | Not given |
| 120 | | | Noble | Hannah | Visitor | Widow | F | 64 | | Norfolk | Stratton |
| 152 | | | Havard | Mary | Mother | Widow | F | 70 | | Glamorganshire | Aberavon |
| 185 | | | Brown | Tamsend | Sister in Law | Unmarriec | F | 62 | | Cornwall | St Helans |
| 186 | | | Williams | Mary | Lodger | Unmarriec | F | 69 | Annuitant | Glamorganshire | Penrice |
| 200 | | | Williams | Anna | Lodger | Widow | F | 80 | House keeper | Carmarthenshire | Llanan |
| 237 | Wind St | 40 | Jenkins | Mary | Head | Widow | F | 69 | Proprietor of houses | Glamorganshire | Llansamlet |
| 268 | Wind St | 45 | Jenkins | Margaret | Head | Widow | F | 78 | | Devonshire | Topsham |
| 278 | | | Sergant | Ann | Mother | Widow | F | 77 | | Bristol | St Pauls |
| 328 | | | Davies | Jane | Mother in law | Widow | F | 69 | Retired lodging hous | Glamorganshire | Oystermouth |

7. Er mwyn mynd yn ôl at y data gwreiddiol, heb eu hidlo, ewch yn ôl i'r ddewislen **DATA** a dewis **DANGOS Y CYFAN**.

**DEFNYDDIO HIDLYDD PERSONOL MANYLACH: (Dangos yr holl bobl sydd rhwng 13 ac 20 oed)**

1. Gofalwch eich bod yn y **MODD HIDLO /**
2. Cliciwch ar saeth y golofn yr ydych yn dymuno cael yr wybodaeth ohoni e.e. **AGE** (Colofn H) Bydd is-gwymplen o'r holl dermau yn y golofn honno'n ymddangos.
3. Dewiswch **(HIDLYDD PERSONOL)** Bydd ffenestr **AWTO HIDLO PERSONOL** yn ymddangos a fydd yn cynnig sawl blwch ar ôl gosodiad fel "Dangos rhesi lle mae'r OED…"
4. Dewiswch y saeth ar y blwch cyntaf. Cewch gynnig sawl dewis o gwymplen e.e. **YN HAFAL I** neu **YN LLAI NA NEU'N HAFAL I**. Dewiswch yr un y mae arnoch ei angen e.e. 'Y**N FWY NA NEU'N HAFAL I**'
5. Yn y blwch i'r dde, dewiswch derm arall e.e. **13**.
6. Ewch i'r blwch nesaf isod. Dewiswch y term arall y mae arnoch ei angen e.e. **YN LLAI NA NEU'N HAFAL I**.
7. Ewch i'r blwch olaf. Dewiswch rif arall e.e. **20**. Yna cliciwch **IAWN**.
8. Yn awr, dylai'r sgrin restru'r holl bobl rhwng 13 ac 20 oed.

**Ffig. 14**

1851 Wind St.xls

| | A | B | C | D | E | F | G | H | I | J | K |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | ROAD | NO | SURNAM | 1ST NAM | RELATION | CONDI | SE | AGE | OCCUPATION | BORN | CITY/TOWN |
| 9 | | | Muckford | Mary | Neice | Unmarried | F | 16 | | Surrey | Lambeth |
| 10 | | | Sullivan | Mary | Servant | Unmarried | F | 19 | General servant | Glamorganshire | Swansea |
| 12 | Duke Tavern | | Farish | Jessy | Daughter | Unmarried | F | 19 | | Monmouthshire | Monmouth |
| 13 | | | Hughes | Sarah | Servant | Unmarried | F | 20 | General servant | Glamorganshire | Swansea |
| 23 | | | James | Mary | Servant | Unmarried | F | 19 | House servant | Glamorganshire | Caerphilly |
| 24 | | | Jenkins | Eliza | Servant | Unmarried | F | 17 | Nurse | Glamorganshire | Swansea |
| 31 | | | Lucas | Margaret | Servant | Unmarried | F | 20 | Nurse Maid | Glamorganshire | Swansea |
| 38 | | | Thomas | Mary | Servant | Unmarried | F | 14 | Maid of all work | Glamorganshire | Swansea |
| 42 | | | Beynon | Elizabeth | Servant | Unmarried | F | 18 | House servant | Glamorganshire | Gower |
| 65 | | | Husband | Ann | Servant | Unmarried | F | 16 | General servant | Glamorganshire | Swansea |
| 71 | | | Roberts | Matilda | Daughter | Unmarried | F | 20 | | Glamorganshire | Swansea |
| 72 | | | Roberts | James | Son | Unmarried | M | 15 | Cabinet maker | Carmarthenshire | Llanelli |
| 73 | | | Roberts | John | Son | Unmarried | M | 13 | Scholar | Glamorganshire | Swansea |
| 83 | | | Edwards | Ann | Servant | Unmarried | F | 19 | House servant | Pembrokeshire | St Davids |
| 87 | | | Pearse | Sarah G | Sister | | F | 14 | Scholar | Somerset | Crewkerne |
| 93 | | | Tyte | Elizabeth J | Daugher | | F | 13 | Scholar | Somerset | Wells |
| 95 | | | Winch | Elizabeth | Servant | Unmarried | F | 17 | House servant | Durham | Sunderland |
| 109 | | | Cock | Harriett | Daughter | | F | 13 | Scholar at home | Glamorganshire | Swansea |
| 125 | | | Broomscon | Agnes | Servant | Unmarried | F | 16 | Nurse maid | Devonshire | Torrington |
| 129 | | | Hopkins | George | Son | Unmarried | M | 19 | Plumber | Glamorganshire | Swansea |

9. Er mwyn mynd yn ôl at y data gwreiddiol, heb eu hidlo, ewch yn ôl i'r ddewislen **DATA** a dewis **DANGOS Y CYFAN**.

**DEFNYDDIO DAU HIDLYDD: (Sawl Pen Teulu sy'n fenyw?)**

1. Gofalwch eich bod yn y **MODD HIDLO**.
2. Cliciwch ar saeth y golofn yr ydych yn dymuno cael yr wybodaeth ohoni (yn yr achos hwn, E). Bydd is-gwymplen o'r holl dermau yn y golofn honno'n ymddangos.
3. Dewiswch y term perthnasol e.e. **HEAD.**
4. Yn awr, dylai'r sgrin restru'r holl bennau teuluoedd.
5. Cliciwch ar saeth yr ail golofn berthnasol (yn yr achos hwn, G). Dewiswch F o'r is-ddewislen.
6. Yn awr, dylai'r sgrin restru'r holl bennau teuluoedd sy'n fenywod.
7. Er mwyn mynd yn ôl at y data gwreiddiol, heb eu hidlo, ewch yn ôl i'r ddewislen **DATA** a dewis **DANGOS Y CYFAN**.